

Cynllun Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) 2013/2014

2013 Rhif 15

Mae'r Cynllun hwn yn gweithredu o dan adrannau 14, 15 ac 16 o Ddeddf Addysg 2002 ac yn gymwys o ran blwyddyn academiaidd 2013/2014.

Dehongli

1. Yn y Cynllun hwn—

ystyr “blwyddyn academiaidd” (*“academic year”*) yw'r cyfnod o 1 Medi mewn un flwyddyn i 31 Awst yn y flwyddyn nesaf, ac eithrio, pan fo tymor cyntaf sefydliad addysgol cydnabyddedig yn cychwyn cyn 1 Medi, y flwyddyn academiaidd yw'r cyfnod sy'n cychwyn ar ddechrau'r tymor hwnnw ac yn dod i ben yn union cyn dechrau'r tymor cyntaf o'r fath yn y flwyddyn ddilynol;

ystyr “ceisydd” (*“applicant”*) yw'r person sy'n gwneud cais am lwfans cynhaliaeth addysg, boed o dan Ran 1 ynteu Rhan 2 o'r Cynllun hwn;

mae “corff llywodraethu” (*“governing body”*) yn cynnwys corff sydd â swyddogaethau corff llywodraethu ac yn cynnwys person sy'n gweithredu ag awdurdod y corff hwnnw;

ystyr “cwrs addysg cymwys” (*“eligible education course”*) yw cwrs a ddisgrifir ym mharagraff 5 mewn perthynas â Rhan 1 o'r Cynllun a pharagraff 12 mewn perthynas â Rhan 2 o'r Cynllun;

ystyr “Cytundeb Dysgu” (*“Learning Agreement”*) yw contract a lofnodir rhwng ceisydd a'i sefydliad addysgol cydnabyddedig sy'n nodi'r cyfrifoldebau priodol mewn perthynas â phresenoldeb, nodau dysgu a thalu dyfarndaliadau wythnosol fel y'u disgrifir ym mharagraffau 6(3) a 13(3) ac yn ychwanegol, mewn perthynas â phersonau a ddiogelir o dan Ran 1, y cais am lwfans cynhaliaeth addysg sy'n ofynnol gan baragraff 9 a derbyn telerau'r cynllun;

ystyr “dyfarndaliad wythnosol” (*“weekly award”*), mewn perthynas â Rhan 1 o'r Cynllun, yw'r swm a gyfrifir yn unol â pharagraff 6, ac mewn perthynas â Rhan 2 o'r Cynllun, yw'r swm a gyfrifir yn unol â pharagraff 13;

mae i “incwm yr aelwyd” (*“household income”*) yr ystyr a roddir iddo ym mharagraffau 3 a 10;

mae i “lwfans cynhaliaeth addysg” (*“education maintenance allowance”*) yr ystyr a roddir iddo ym mharagraffau 6(1) i (4) a 13(1) i (4);

ystyr “nodau dysgu” (*“learning goals”*) yw amcanion y cytunir arnynt rhwng ceisydd a'i

sefydliad addysgol cydnabyddedig sy'n ymwneud â chynnydd addysgol y ceisydd;

ystyr “partner” (*“partner”*), mewn perthynas â cheisydd, yw unrhyw un o'r canlynol—

(a) priod y ceisydd;

(b) partner sifil y ceisydd;

(c) person sy'n byw fel arfer gyda'r ceisydd fel partner sifil y ceisydd;

(d) person sy'n byw fel arfer gyda'r ceisydd fel priod y ceisydd;

ystyr “person a ddiogelir” (*“protected person”*) yw person—

(a) a gafodd o leiaf un dyfarndaliad wythnosol o lwfans cynhaliaeth addysg mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs addysg cymwys yn ystod y flwyddyn academaidd 2010/2011 a'r flwyddyn academaidd 2011/12 a 2012/2013 ond nad yw wedi cael lwfans cynhaliaeth addysg am fwy na thair blwyddyn academaidd; a

(b) sy'n berson cymwys a ddiogelir;

ystyr “person annibynnol” (*“independent person”*) yw person—

(a) nad yw wedi cyfathrebu â naill ai ei rieni neu ei warcheidwaid yn ystod y cyfnod o un flwyddyn yn union cyn diwrnod cyntaf tymor cyntaf y flwyddyn academaidd y gwneir cais am lwfans cynhaliaeth addysg mewn perthynas â hi; neu

(b) sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn gallu dangos ar seiliau eraill ei fod wedi ymddieithrio'n anghymodlon oddi wrth ei rieni neu ei warcheidwaid;

ac nad yw'n berson esempt;

mae i “person cymwys” (*“eligible person”*) yr ystyr a roddir iddo ym mharagraffau 11(2) a (3);

mae i “person cymwys a ddiogelir” (*“protected eligible person”*) yr ystyr a roddir iddo ym mharagraffau 4(2) a (3);

ystyr “person cymwys sy'n dychwelyd” (*“eligible returning person”*) yw person—

(a) a gafodd o leiaf un dyfarndaliad wythnosol o lwfans cynhaliaeth addysg mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs addysg cymwys yn ystod blwyddyn academaidd 2012/2013 ond nad yw wedi cael lwfans cynhaliaeth addysg am fwy na thair blynedd academaidd; a

(b) sy'n berson cymwys;

ystyr “person dibynnol” (*“dependent person”*) yw naill ai ceisydd nad yw'n berson annibynnol neu berson sydd—

(a) yn preswyllo fel arfer gyda'r ceisydd,

(b) yn peri bod gan riant, gwarcheidwad neu ofalwr y person, neu gan bersonau eraill y mae'n ddibynnol arnynt yn ariannol, hawlogaeth i gael budd-dal plant yn unol â

Rhan 9 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(1); ac

(c) yn dibynnu ar yr un incwm aelwyd â'r ceisydd, a gyfrifir yn unol â pharagraff 10;

ystyr “person esempt” (“*exempt person*”) yw person sydd—

- (a) yng ngofal awdurdod lleol, gyda rhieni maeth neu'n berson sy'n ymadael â gofal; neu
- (b) yn gyfrifol am ei blentyn ei hunan; neu
- (c) yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm; neu
- (d) yn y ddalfa neu wedi ei gadw'n gaeth o fewn y system cyfiawnder ieuencid, gan gynnwys Sefydliad Troseddwyr Ifanc, Canolfan Hyfforddi Ddiogel neu Gartref Diogel i Blant;

ystyr “sefydliad addysgol cydnabyddedig” (“*recognised educational institution*”) o ran Rhan 1 o'r Cynllun hwn yw—

- (a) ysgol yng Nghymru a gynhelir gan awdurdod lleol;
- (b) ysgol annibynnol yng Nghymru a gofrestrwyd o dan Ran 10 o Ddeddf Addysg 2002;
- (c) sefydliad yng Nghymru yn y sector addysg bellach; neu
- (d) unrhyw sefydliad addysgol arall yng Nghymru y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei fod yn briodol;

ystyr “sefydliad addysgol cydnabyddedig” (“*recognised educational institution*”) o ran Rhan 2 o'r Cynllun hwn yw—

- (a) ysgol yng Nghymru a gynhelir gan awdurdod lleol neu sefydliad cyfatebol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;
- (b) ysgol annibynnol yng Nghymru a gofrestrwyd o dan Ran 10 o Ddeddf Addysg 2002 neu sefydliad cyfatebol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;
- (c) sefydliad yng Nghymru yn y sector addysg bellach neu sefydliad cyfatebol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon; neu
- (d) unrhyw sefydliad addysgol arall yng Nghymru y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei fod yn briodol;

ystyr “sesiwn ddysgu” (“*learning session*”) yw dosbarth neu sesiwn arall a addysgir, neu o astudio dan arweiniad, (gan gynnwys gwaith ymarferol neu brofiad gwaith di-dâl) y mae sefydliad addysgol cydnabyddedig yn monitro ac yn adrodd ar bresenoldeb mewn perthynas ag ef neu hi.

(1) 1992 p.4.

Natur y Cynllun

2.—(1) Bydd person a ddiogelir yn cael ei asesu yn unol â Rhan 1 o'r Cynllun hwn, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2).

(2) Bydd person a ddiogelir sydd wedi methu â darparu tystiolaeth y gofynnir amdani er mwyn gwirio sampl o ran cymhwysra, mewn perthynas â thalu lwfans cynhaliaeth addysg yn y flwyddyn academiaidd 2012/13 erbyn 31 Awst 2013 yn cael ei asesu yn unol â Rhan 2 o'r Cynllun hwn.

(3) Bydd ceisydd nad yw'n berson a ddiogelir yn cael ei asesu yn unol â Rhan 2 o'r Cynllun hwn.

RHAN 1

Personau a Ddiogelir

Incwm yr aelwyd

3.—(1) Incwm yr aelwyd yw'r swm a gyfrifir at ddibenion credyd treth gwaith a chredyd treth plant yn Rheoliadau Credydau Treth (Diffinio a Chyfrifo Incwm) 2002(1) fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd ac fel y'u cymhwysir yn is-baragraffau (2) i (4).

(2) Os nad yw'r ceisydd yn berson annibynnol, incwm yr aelwyd yw incwm rhieni, gwarcheidwaid neu ofalwyr y ceisydd, neu incwm personau eraill y mae'r ceisydd yn dibynnu arnynt yn ariannol.

(3) Os yw'r ceisydd yn berson annibynnol sydd â phartner, incwm yr aelwyd yw incwm y ceisydd ac incwm partner y ceisydd.

(4) Os yw'r ceisydd yn berson annibynnol nad oes ganddo bartner, incwm yr aelwyd yw incwm y ceisydd.

Personau Cymwys a Ddiogelir

2.4.—(1) Mae person a ddiogelir yn cymhwyso i gael lwfans cynhaliaeth addysg mewn cysylltiad â chwrs addysg cymwys, yn ddarostyngedig i Ran 1 o'r Cynllun hwn ac yn unol â hi.

(1) Mae ceisydd yn berson cymwys a ddiogelir, sy'n cymhwyso i gael lwfans cynhaliaeth addysg o dan Ran 1 o'r Cynllun hwn—

- (a) os yw Gweinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), yn penderfynu wrth asesu'r cais fod y ceisydd yn dod o fewn un o'r categorïau a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen;

(1) OS 2002/2006 fel y'i diwygiwyd gan OS 2003/732, OS 2003/2815, OS 2004/762, OS 2004/2663, OS 2006/745, OS 2006/766, OS 2007/824, OS 2007/1305, OS 2007/2538, OS 2008/604, OS 2008/1879, OS 2008/2169, OS 2009/697, OS 2009/2887, OS 2010/751, OS 2010/2494, OS 2010/2914, OS 2011/721 ac OS 2012/848.

- (b) os yw'r ceisydd yn ymgymryd â chwrs addysg cymwys;
- (c) os yw'r ceisydd yn berson esempt, neu os yw incwm yr aelwyd yn £32,400 neu lai yn y flwyddyn dreth a ddaeth i ben yn Ebrill 2013;
- (d) os yw'r ceisydd, yn ystod blwyddyn academiaidd 2013/2014, yn cael ei ben-blwydd yn ddeunaw, pedair ar bymtheg neu, yn ddarostyngedig i is-baragraff (5), yn ugain oed; ac
- (e) os gwneir cais yn unol â pharagraff 9.

(3) Nid yw person cymwys a ddiogelir yn cymhwyso i gael lwfans cynhaliaeth addysg os paragraff 9 yw'r unig baragraff y mae'r person hwnnw'n dod o'i fewn, o baragraffau 2 i 11 o Ran 2 o'r Atodlen.

(4) Ni wneir taliad o lwfans cynhaliaeth addysg oni fydd person cymwys a ddiogelir yn bodloni'r amodau ym mharagraff 8 o'r Cynllun hwn.

(5) Caniateir i berson cymwys a ddiogelir gael taliad yn y flwyddyn academiaidd pan fo'r person cymwys a ddiogelir yn cael ei ben-blwydd yn ugain oed os yw'r person cymwys a ddiogelir wedi cael lwfans cynhaliaeth addysg yn ystod un neu ddwy o'r tair blwyddyn academiaidd flaenorol, a bod y sefydliad addysgol cydnabyddedig, ar ôl ymgynghori ag unrhyw gorff addysgol neu sefydliad arall y mae'n credu eu bod yn addas, yn cynghori Gweinidogion Cymru y dylai'r person cymwys a ddiogelir gael lwfans cynhaliaeth addysg ar gyfer blwyddyn academiaidd 2013/2014.

Cwrs addysg cymwys

5. Mae cwrs yn gwrs addysg cymwys at ddibenion Rhan 1 o'r Cynllun hwn—

- (a) os yw'r cwrs yn rhaglen o addysg academiaidd neu alwedigaethol amser-llawn;
- (b) os yw'r rhaglen o addysg academiaidd neu alwedigaethol amser-llawn yn parhau am o leiaf ddeng wythnos;
- (c) os darperir y cwrs gan, neu mewn, sefydliad addysgol cydnabyddedig;
- (d) os byddai amserlen y person a ddiogelir, mewn perthynas â'r cwrs hwnnw, yn ei gwneud yn ofynnol bod y person a ddiogelir yn bresennol mewn sesiwn ddysgu am ddim llai na deuddeg awr yr wythnos; ac
- (e) os yw'r cwrs yn gysylltiedig â chymwysterau hyd at a chan gynnwys Cymwysterau Cenedlaethol Lefel 3.

Strwythur, lefel y taliadau ac asesu

6.—(1) Mae lwfans cynhaliaeth addysg yn daladwy mewn perthynas â'r cyfnod o dair blwyddyn academiaidd, gan gynnwys blwyddyn academiaidd pan fo person a ddiogelir eisoes wedi cael taliad, sy'n cychwyn yn y flwyddyn academiaidd pan fo'r person a

ddiogelir yn peidio â bod mewn oedran ysgol gorfodol neu, yn ddarostyngedig i baragraff 4(5), y cyfnod o bedair blwyddyn academaidd sy'n cychwyn yn y flwyddyn academaidd pan fo'r person a ddiogelir yn peidio â bod mewn oedran ysgol gorfodol.

(2) Yr hyn a gynhwysir mewn lwfans cynhaliaeth addysg yw dyfarndaliad wythnosol, fel y'i disgrifir yn is-baragraff (3) a pharagraff 8, a delir bob pythefnos i'r person a ddiogelir.

(3) Mae'r dyfarndaliad wythnosol am flwyddyn academaidd 2013/2014—

(a) mewn perthynas â pherson a ddiogelir sy'n berson esempt, yn £30;

(b) mewn perthynas â pherson a ddiogelir nad yw'n berson esempt, i'w benderfynu yn unol â'r tabl a ganlyn:

<i>Incwm yr aelwyd</i>	<i>Dyfarndaliad wythnosol</i>
Hyd at £21,885 ac yn hafal iddo	£30
£21,886 ond yn llai na £26,840 neu'n hafal iddo	£20
£26,841 ond yn £32,400 neu'n hafal iddo	£10
Yn hafal i £32,401 neu'n fwy na hynny	£0

(4) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (5) i (7), bydd yr asesiad o gymhwysra ariannol person a ddiogelir i gael lwfans cynhaliaeth addysg a wneir o dan y paragraff hwn yn ddilys am y cyfan o'r flwyddyn academaidd 2013/2014.

(5) Mewn achosion pan fo incwm yr aelwyd wedi ei asesu o dan baragraff 3, a chanlyniad yr asesiad hwnnw yw bod incwm yr aelwyd yn fwy na £21,885, caiff ceisydd wneud cais am gael ei ailasesu os bodlonir un neu ragor o'r amodau a ganlyn—

(a) bod person y cymerwyd ei incwm i ystyriaeth wrth asesu incwm yr aelwyd wedi marw;

(b) ers pan wnaed yr asesiad o incwm yr aelwyd, nad yw'r person a ddiogelir bellach yn byw gyda naill ai'i rieni, ei warcheidwaid neu bersonau eraill y cymerwyd eu hincwm i ystyriaeth wrth asesu incwm yr aelwyd, a bod y person a ddiogelir bellach yn gyfrifol amdano'i hunan;

(c) ers pan wnaed yr asesiad o incwm yr aelwyd, bod y person a ddiogelir wedi dod yn berson esempt;

(d) ers pan wnaed yr asesiad, bod lleihad wedi digwydd yn incwm yr aelwyd, ac nad yw'r lleihad yn un dros dro.

(6) Yn dilyn cais a wneir o dan is-baragraff (5), caiff Gweinidogion Cymru benderfynu bod gan berson a ddiogelir hawlogaeth i gael dyfarndal wythnosol yn unol ag is-baragraff (3).

(7) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad o dan is-baragraff (6) rhaid iddynt hysbysu'r person a ddiogelir o'r penderfyniad.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru wrth benderfynu o dan is-baragraff (6)—

- (a) ôl-ddyddio'r taliad i'r dyddiad y cawsant y cais gan y person a ddiogelir am ailasesiad; neu
- (b) yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-baragraffau (5)(a) ac (c), ôl-ddyddio'r taliad i'r dyddiad y bu farw'r person y cymerwyd ei incwm i ystyriaeth neu'r dyddiad y daeth y person a ddiogelir yn berson esempt; neu
- (c) gwneud taliadau o lwfans cynhaliaeth addysg o dan baragraff 8 i berson a ddiogelir sy'n cymhwyso i gael cymorth o dan Ran 1 o'r Cynllun hwn.

Ymholiadau Asesu

7. Wrth asesu cymhwystra i gael lwfans cynhaliaeth addysg, gan gynnwys ailasesu o dan baragraff 6(5), caiff Gweinidogion Cymru gymryd, ar unrhyw bryd, unrhyw gamau a gwneud unrhyw ymholiadau y maent yn credu eu bod yn angenrheidiol er mwyn penderfynu a yw'r ceisydd yn berson a ddiogelir, a yw'r ceisydd yn cymhwyso i gael cymorth, a swm y cymorth sy'n daladwy.

Dyfarndaliad wythnosol

3.8.—(1) Dim ond mewn perthynas ag wythnos o'r cwrs addysg cymwys pan fo amserlen y person a ddiogelir yn gwneud ei bresenoldeb mewn sesiynau dysgu yn ofynnol y mae dyfarndaliad wythnosol yn daladwy.

(2) Mae person a ddiogelir yn cymhwyso i gael dyfarndaliad wythnosol a asesir yn unol â pharagraffau 6(2) a 6(3) os yw wedi llofnodi Cytundeb Dysgu ac—

- (a) yn ddarostyngedig i baragraff (b), mewn perthynas ag wythnos y mae'r dyfarndaliad wythnosol yn berthynol iddi, os yw wedi bod yn bresennol ym mhob sesiwn ddysgu mewn cysylltiad â chwrs addysg cymwys; neu
- (b) os na fu'n bresennol ym mhob sesiwn ddysgu o'r fath mewn perthynas ag wythnos y mae'r dyfarndaliad wythnosol yn berthynol iddi, os yw'r sefydliad addysgol cydnabyddedig wedi awdurdodi pob absenoldeb; ac
- (c) os yw'r y sefydliad addysgol cydnabyddedig yn penderfynu bod y person a ddiogelir yn gwneud cynnydd boddhaol tuag at gyrraedd ei nodau dysgu fel y'u pennir yn y Cytundeb Dysgu.

Ceisiadau ac ôl-dalu

9.—(1) Er mwyn cael lwfans cynhaliaeth addysg, rhaid i berson a ddiogelir, ym mhob blwyddyn academaidd o

gwrs addysg cymwys, gyflwyno cais yn unol ag is-baragraffau (2) a (3).

(2) Rhaid i gadarnhad o gais am lwfans cynhaliaeth addysg gan berson a ddiogelir gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru erbyn 31 Awst 2014 fan bellaf, yn ddarostyngedig i is-baragraff (4).

4. Copi o'r Cytundeb Dysgu wedi ei lofnodi yw cais gan berson a ddiogelir at ddibenion Rhan 1 o'r Cynllun.

(3) Pan wneir cais gan berson a ddiogelir ar ôl dechrau'r flwyddyn academiaidd, caniateir ôl-ddyddio taliad o lwfans cynhaliaeth addysg—

- (a) os daw'r cais i law Gweinidogion Cymru heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos wedi i'r person a ddiogelir ddechrau ar ei gwrs, i'r dyddiad y mae'r person a ddiogelir yn dechrau ar ei gwrs; neu
- (b) os daw'r cais i law Gweinidogion Cymru ar ôl diwedd yr wyth wythnos gyntaf wedi i'r person a ddiogelir ddechrau ar ei gwrs, i'r dyddiad y daw'r cais i law Gweinidogion Cymru.

(5) Mae unrhyw ôl-daliad a wneir o dan y paragraff hwn yn ddarostyngedig i'r rheolau ynghylch dyfardaliadau wythnosol o lwfans cynhaliaeth addysg ym mharagraff 8.

RHAN 2

Ceiswyr Newydd a Phersonau Nas Diogelir

Incwm yr aelwyd

10.—(1) Incwm yr aelwyd yw'r swm a gyfrifir at ddibenion credyd treth gwaith a chredyd treth plant yn Rheoliadau Credydau Treth (Diffinio a Chyfrifo Incwm) 2002(1) fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd ac fel y'u cymhwysir yn is-baragraffau (2) i (4).

(2) Os nad yw'r ceisydd yn berson annibynnol, incwm yr aelwyd yw incwm rhieni, gwarcheidwaid neu ofalwyr y ceisydd, neu incwm personau eraill y mae'r ceisydd yn dibynnu arnynt yn ariannol.

(3) Os yw'r ceisydd yn berson annibynnol sydd â phartner, incwm yr aelwyd yw incwm y ceisydd ac incwm partner y ceisydd.

(4) Os yw'r ceisydd yn berson annibynnol nad oes ganddo bartner, incwm yr aelwyd yw incwm y ceisydd.

(1) OS 2002/2006 fel y'i diwygiwyd gan OS 2003/732, OS 2003/2815, OS 2004/762, OS 2004/2663, OS 2006/745, OS 2006/766, OS 2007/824, OS 2007/1305, OS 2007/2538, OS 2008/604, OS 2008/1879, OS 2008/2169, OS 2009/697, OS 2009/2887, OS 2010/751, OS 2010/2494, OS 2010/2914, OS 2011/721 ac OS 2012/848.

Personau Cymwys

11.—(1) Mae ceisydd sy'n berson cymwys, yn cymhwyso i gael lwfans cynhaliaeth addysg mewn cysylltiad â chwrs addysg cymwys yn ddarostyngedig i Ran 2 o'r Cynllun hwn ac yn unol â hi.

(2) Mae ceisydd yn berson cymwys, sy'n gymwys i gael lwfans cynhaliaeth addysg o dan Ran 2 o'r Cynllun hwn—

- (a) os yw Gweinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), yn penderfynu wrth asesu'r cais fod y ceisydd yn dod o fewn un o'r categorïau a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen; a
- (b) os yw'r ceisydd yn ymgymryd â chwrs addysg cymwys ac yn preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd o'r cwrs hwnnw; ac
- (c) os yw'r ceisydd yn berson esempt, neu os yw incwm yr aelwyd yn llai na'r symiau a bennir yn y tabl ym mharagraff 13(3) yn y flwyddyn dreth a ddaeth i ben yn Ebrill 2014 neu'n hafal iddynt; ac
- (d) os yw'r ceisydd, yn ystod blwyddyn academaidd 2013/2014, yn cael ei ben-blwydd yn ddwy ar bymtheg, deunaw, pedair ar bymtheg neu, yn ddarostyngedig i is-baragraff (5), yn ugain oed; ac
- (e) os gwneir cais yn unol â pharagraff 16.

(3) Nid yw person cymwys yn cymhwyso i gael lwfans cynhaliaeth addysg os paragraff 9 yw'r unig baragraff y mae'r person hwnnw'n dod o'i fewn, o baragraffau 2 i 11 o Ran 2 o'r Atodlen.

(4) Ni wneir taliad o lwfans cynhaliaeth addysg oni fydd person cymwys yn bodloni'r amodau ym mharagraff 15 o'r Cynllun hwn.

(5) Caniateir i berson cymwys gael taliad yn y flwyddyn academaidd pan fo'r person cymwys hwnnw yn cael ei ben-blwydd yn ugain oed os yw'r person cymwys hwnnw wedi cael lwfans cynhaliaeth addysg yn ystod un neu ddwy o'r tair blwyddyn academaidd flaenorol, a'r sefydliad addysgol cydnabyddedig, ar ôl ymgynghori ag unrhyw gorff addysgol neu sefydliad arall y mae'n credu eu bod yn addas, yn cynghori Gweinidogion Cymru y dylai'r person cymwys gael lwfans cynhaliaeth addysg ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/2014.

Cwrs addysg cymwys

12. Mae cwrs yn gwrdd addysg cymwys at ddibenion Rhan 2 o'r Cynllun hwn—

- (a) os yw'r cwrs yn rhaglen o addysg academaidd neu alwedigaethol amser-llawn;
- (b) os yw'r rhaglen o addysg academaidd neu alwedigaethol amser-llawn yn parhau am o leiaf ddeng wythnos;

- (c) os darperir y cwrs gan, neu mewn, sefydliad addysgol cydnabyddedig;
- (d) os byddai amserlen y person cymwys, mewn perthynas â'r cwrs hwnnw, yn ei gwneud yn ofynnol bod y person cymwys yn bresennol mewn sesiwn ddysgu am ddim llai na deuddeng awr yr wythnos; ac
- (e) os yw'r cwrs yn gysylltiedig â chymwysterau hyd at a chan gynnwys Cymwysterau Cenedlaethol Lefel 3.

Strwythur, lefel y taliadau ac asesu

13.—(1) Mae lwfans cynhaliaeth addysg yn daladwy mewn perthynas â'r cyfnod o dair blwyddyn academaidd, gan gynnwys blwyddyn academaidd pan fo person cymwys eisoes wedi cael taliad, sy'n cychwyn yn y flwyddyn academaidd pan fo'r person cymwys yn peidio â bod mewn oedran ysgol gorfodol neu, yn ddarostyngedig i baragraff 11(5), y cyfnod o bedair blwyddyn academaidd sy'n cychwyn yn y flwyddyn academaidd pan fo'r person cymwys yn peidio â bod mewn oedran ysgol gorfodol.

(2) Yr hyn a gynhwysir mewn lwfans cynhaliaeth addysg yw dyfarndaliad wythnosol, fel y'i disgrifir yn is-baragraff (3) a pharagraff 15, a delir bob pythefnos i'r person cymwys.

(3) Mae'r dyfarndaliad wythnosol am flwyddyn academaidd 2013/2014—

- (a) mewn perthynas â pherson cymwys sy'n berson esempt yn £30;
- (b) mewn perthynas â pherson cymwys nad yw'n berson esempt i'w benderfynu yn unol â'r tabl a ganlyn—

<i>Incwm yr aelwyd</i>	<i>Dyfarndaliad wythnosol</i>
Hyd at £20,817 ac yn hafal iddo, gydag un person dibynnol yn byw ar yr aelwyd	£30
Yn hafal i £20,818 neu'n fwy na hynny gydag un person dibynnol yn byw ar yr aelwyd	£0
Hyd at £23,077 ac yn hafal iddo gyda dau neu ragor o bersonau dibynnol yn byw ar yr aelwyd	£30
Yn hafal £23,078 neu'n fwy na hynny gyda dau neu ragor o personau dibynnol yn byw ar yr aelwyd	£0

(4) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (5) i (7), bydd yr asesiad o gymhwystra ariannol person cymwys i gael lwfans cynhaliaeth addysg a wneir o dan y paragraff hwn yn ddilys am y cyfan o'r flwyddyn academaidd 2013/2014.

(5) Mewn achosion pan fo incwm yr aelwyd wedi ei asesu o dan baragraff 10 a chanlyniad yr asesiad hwnnw yw nad oes gan y ceisydd hawlogaeth i gael taliad o lwfans cynhaliaeth addysg, caiff y ceisydd wneud cais am gael ei ailasesu os bodlonir un neu ragor o'r amodau a ganlyn—

(a) bod person y cymerwyd ei incwm i ystyriaeth wrth asesu incwm yr aelwyd wedi marw;

(b) ers pan wnaed yr asesiad o incwm yr aelwyd, nad yw'r person cymwys bellach yn byw gyda naill ai ei rieni, ei warcheidwaid neu bersonau eraill y cymerwyd eu hincwm i ystyriaeth wrth asesu incwm yr aelwyd, a bod y person cymwys bellach yn gyfrifol amdano'i hunan;

(c) ers pan wnaed yr asesiad o incwm yr aelwyd, bod y person cymwys wedi dod yn berson esempt;

(d) ers pan wnaed yr asesiad, bod lleihad wedi digwydd yn incwm yr aelwyd, ac nad yw'r lleihad yn un dros dro;

(e) ers pan wnaed yr asesiad, bod un neu ragor o bersonau dibynnol wedi dod i ddibynnu ar incwm yr aelwyd.

(6) Yn dilyn cais a wneir o dan is-baragraff (5), caiff Gweinidogion Cymru benderfynu bod gan berson cymwys hawlogaeth i gael dyfarndal wythnosol yn unol ag is-baragraff (3).

(7) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad o dan is-baragraff (6) rhaid iddynt hysbysu'r person cymwys o'r penderfyniad.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru wrth benderfynu o dan is-baragraff (6)—

(a) ôl-ddyddio'r taliad i'r dyddiad y cawsant y cais gan y person cymwys am ailasesiad; neu

(b) yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-baragraffau (5)(a), (c) ac (e), ôl-ddyddio'r taliad i'r dyddiad y bu farw'r person y cymerwyd ei incwm i ystyriaeth neu'r dyddiad y daeth y person cymwys yn berson esempt, neu'r dyddiad y daeth un neu ragor o bersonau dibynnol i ddibynnu ar yr un incwm yr aelwyd; neu

(c) gwneud taliadau o lwfans cynhaliaeth addysg o dan baragraff 15 i berson cymwys sy'n cymhwyso i gael cymorth o dan Ran 2 o'r Cynllun hwn.

Ymholiadau Asesu

14. Wrth asesu cymhwysra i gael lwfans cynhaliaeth addysg, gan gynnwys ailasesu o dan baragraff 13(5), caiff Gweinidogion Cymru gymryd, ar unrhyw bryd, unrhyw gamau a gwneud unrhyw ymholiadau y maent yn credu eu bod yn angenrheidiol er mwyn penderfynu a yw'r ceisydd yn cymhwyso i gael cymorth, a swm y cymorth sy'n daladwy.

Dyfarndaliad wythnosol

5.15.—(1) Dim ond mewn perthynas ag wythnos o'r cwrs addysg cymwys pan fo amserlen y person cymwys yn gwneud ei bresenoldeb mewn sesiynau dysgu yn ofynnol y mae dyfarndaliad wythnosol yn daladwy.

(2) Mae person cymwys yn cymhwyso i gael dyfarndaliad wythnosol a asesir yn unol â pharagraffau 13(2) a 13(3) os yw wedi llofnodi Cytundeb Dysgu ac—

(a) yn ddarostyngedig i baragraff (b), mewn perthynas ag wythnos y mae'r dyfarndaliad wythnosol yn berthynol iddi, os yw wedi bod yn bresennol ym mhob sesiwn ddysgu mewn cysylltiad â chwrs addysg cymwys; neu

(b) os na fu'n bresennol ym mhob sesiwn ddysgu o'r fath mewn perthynas ag wythnos y mae'r dyfarndaliad wythnosol yn berthynol iddi, os yw'r sefydliad addysgol cydnabyddedig wedi awdurdodi pob absenoldeb; ac

(c) os yw'r sefydliad addysgol cydnabyddedig yn penderfynu bod y person cymwys yn gwneud cynnydd boddhaol tuag at gyrraedd ei nodau dysgu fel y'u pennir yn y Cytundeb Dysgu.

Ceisiadau ac ôl-dalu

16.—(1) Er mwyn cael lwfans cynhaliaeth addysg, rhaid i berson cymwys, ym mhob blwyddyn academaidd o gwrs addysg cymwys, gyflwyno cais yn unol ag is-baragraffau (2), (3) a (4).

(2) Rhaid i gais am lwfans cynhaliaeth addysg gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru erbyn 31 Awst 2014 fan bellaf, yn ddarostyngedig i is-baragraff (5).

(3) Ffurflen gais lofnodedig fel a wneir yn ofynnol ac a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd yw cais gan berson cymwys (ond nid person cymwys sy'n dychwelyd), at ddibenion Rhan 2 o'r Cynllun,.

(4) Copi o'r Cytundeb Dysgu wedi ei lofnodi yw cais gan berson cymwys sy'n dychwelyd at ddibenion Rhan 2 o'r Cynllun.

(5) Pan wneir cais gan ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd, caniateir ôl-ddyddio taliad o lwfans cynhaliaeth addysg—

(a) os daw'r cais i law Gweinidogion Cymru heb fod yn hwyrach nag wyth wythnos wedi i'r person cymwys ddechrau ar ei gwrs, i'r dyddiad y mae'r person cymwys yn dechrau ar ei gwrs; neu

(b) os daw'r cais i law Gweinidogion Cymru ar ôl diwedd yr wyth wythnos gyntaf wedi i'r person cymwys ddechrau ar ei gwrs, i'r dyddiad y daw'r cais i law Gweinidogion Cymru.

(6) Mae unrhyw ôl-daliad a wneir o dan y paragraff hwn yn ddarostyngedig i'r rheolau ynghylch dyfarndaliadau wythnosol o lwfans cynhaliaeth addysg ym mharagraff 15.

RHAN 3

Darpariaethau Cyffredinol

Rhwymedigaethau sefydliad addysgol cydnabyddedig

17. Rhaid i gorff llywodraethu sefydliad addysgol cydnabyddedig sy'n darparu cyrsiau addysg cymwys i geiswyr o dan y Cynllun hwn—

- (a) cymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth bod lwfans cynhaliaeth addysg ar gael ymhlith ei ddisgyblion neu ei fyfyrwyr a'i ddarpar ddisgyblion neu fyfyrwyr;
- (b) sicrhau bod y staff wedi eu hyfforddi'n briodol ar gyfer gweinyddu lwfans cynhaliaeth addysg;
- (c) hysbysu Gweinidogion Cymru ynghylch pob person a ddiogelir a phob person cymwys a gofrestrwyd gyda'r sefydliad addysgol cydnabyddedig, a chadarnhau ei fod ef a'r person a ddiogelir neu'r person cymwys wedi llofnodi'r Cytundeb Dysgu;
- (d) sicrhau bod personau a ddiogelir a phersonau cymwys yn ymwybodol o'r modd y gweinyddir lwfans cynhaliaeth addysg yn y sefydliad addysgol cydnabyddedig;
- (e) sicrhau y cynhelir cofnodion presenoldeb mewn perthynas â'r holl geiswyr sydd â hawlogaeth i gael lwfans cynhaliaeth addysg o dan y Cynllun hwn ac sydd wedi ymrestru yn y sefydliad addysgol cydnabyddedig;
- (a) sicrhau bod copïau o Gytundebau Dysgu (gyda'r llofnodion gwreiddiol) yn cael eu cadw mewn perthynas â'r holl geiswyr sydd â hawlogaeth i gael lwfans cynhaliaeth addysg o dan y Cynllun hwn ac sydd wedi ymrestru yn y sefydliad addysgol cydnabyddedig;
- (b) cyflwyno adroddiadau wythnosol i Weinidogion Cymru sy'n rhoi manylion am y personau a ddiogelir a'r personau cymwys a ddylai neu na ddylai gael lwfans cynhaliaeth addysg mewn perthynas â'r wythnos flaenorol, yn unol â pharagraffau 8(2) a 15(2);
- (c) sefydlu a chyhoeddi proses apelau mewn perthynas â chwynion a wneir gan geiswyr sy'n tarddu o'r rhwymedigaethau a osodir ar sefydliad addysgol cydnabyddedig o dan is-baragraffau (c), (e) ac (f).

Gwahardd cyllido deul

18. Rhaid i berson a ddiogelir neu berson cymwys beidio â chael lwfans cynhaliaeth addysg mewn perthynas â chwrs neu leoliad gwaith y mae'n cael tâl neu lwfans hyfforddi ar ei gyfer, neu'n cael unrhyw gymorth ariannol arall o arian cyhoeddus a bennir gan Weinidogion Cymru.

Gordalu

19. Rhaid i berson a ddiogelir neu berson cymwys, os gofynnir iddo wneud hynny gan Weinidogion Cymru, ad-dalu unrhyw swm a delir i'r person hwnnw o dan y Cynllun hwn—

- (a) sydd, am ba bynnag reswm, dros ben swm y lwfans cynhaliaeth addysg y mae gan y person a ddiogelir neu'r person cymwys hawlogaeth i'w gael o dan y Cynllun hwn; neu
- (b) nad oes gan y person a ddiogelir neu'r person cymwys hawlogaeth i'w gael o dan y Cynllun hwn am ba reswm bynnag.

O dan awdurdod y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

YR ATODLEN

Personau Cymwys a Ddiogelir a Phersonau Cymwys

RHAN 1

Dehongli

1.—(1) At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr “AEE” (“EEA”) yw'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, sef yr ardal a ffurfir gan yr Undeb Ewropeaidd, Gweriniaeth Gwlad yr Iâ, Teyrnas Norwy a Thywysogaeth Liechtenstein;

ystyr “aelod o deulu” (“*family member*”) oni nodir yn wahanol—

- (a) mewn perthynas â gweithiwr y ffin o'r AEE, gweithiwr mudol o'r AEE, person hunangyflogedig y ffin o'r AEE neu berson hunangyflogedig o'r AEE yw—
 - (i) ei briod neu ei bartner sifil;
 - (ii) ei ddisgynyddion uniongyrchol neu ddisgynyddion uniongyrchol ei briod neu ei bartner sifil—

- (aa) sydd o dan 21 oed; neu
- (bb) sy'n ddibynyddion iddo neu i'w briod neu i'w bartner sifil; neu
- (iii) perthynas uniongyrchol dibynnol yn ei linach esgynnol neu yn llinach esgynnol ei briod neu ei bartner sifil;
- (b) mewn perthynas â pherson cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig Swisaidd y ffin, person hunangyflogedig Swisaidd y ffin neu berson hunangyflogedig Swisaidd yw—
 - (i) ei briod neu ei bartner sifil; neu
 - (ii) ei blentyn neu blentyn ei briod neu ei bartner sifil;
- (c) mewn perthynas â gwladolyn o'r UE nad yw'n hunangynhaliol yw—
 - (i) ei briod neu ei bartner sifil; neu
 - (ii) ei ddisgynyddion uniongyrchol neu ddisgynyddion uniongyrchol ei briod neu ei bartner sifil—
 - (aa) sydd o dan 21 oed; neu
 - (bb) sy'n ddibynyddion iddo neu i'w briod neu i'w bartner sifil;
- (d) mewn perthynas â gwladolyn o'r UE sy'n hunangynhaliol yw—
 - (i) ei briod neu ei bartner sifil; neu
 - (ii) ei ddisgynyddion uniongyrchol neu ddisgynyddion uniongyrchol ei briod neu ei bartner sifil—
 - (aa) sydd o dan 21 oed; neu
 - (bb) sy'n ddibynyddion iddo neu i'w briod neu i'w bartner sifil;
 - (iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn ei linach esgynnol neu yn llinach esgynnol ei briod neu ei bartner sifil;
- (e) mewn perthynas â gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, at ddibenion paragraff 9 yw—
 - (i) ei briod neu ei bartner sifil; neu
 - (ii) ei ddisgynyddion uniongyrchol neu ddisgynyddion uniongyrchol ei briod neu ei bartner sifil—
 - (aa) sydd o dan 21 oed; neu
 - (bb) sy'n ddibynyddion iddo neu i'w briod neu i'w bartner sifil;

ystyr “Cyfarwyddeb 2004/38” (*“Directive 2004/38”*) yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 29 Ebrill 2004⁽¹⁾ ar hawliau dinasyddion yr Undeb ac aelodau o'u teuluoedd i symud a phreswyllo'n rhydd o fewn tiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau;

ystyr “Cytundeb y Swistir” (*“Swiss Agreement”*) yw'r Cytundeb rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'i

(1) OJ L158, 30.04.2004, tt 77-123.

Aelod-wladwriaethau, o'r naill ran, a'r Conffederasiwn Swisaidd, o'r rhan arall, ar Rydd Symudiad Personau, a lofnodwyd yn Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999⁽¹⁾ ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

ystyr “diogelwch dros dro” (“*temporary protection*”) yw caniatâd cyfyngedig i ddod i mewn neu i aros, a roddir yn unol â Rhan 11A o'r Rheolau Mewnfudo⁽²⁾;

ystyr “ffoadur” yw person a gydnabyddir gan Lywodraeth Ei Mawrhydi fel ffoadur o fewn ystyr “*refugee*” yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951 fel y'i hestynnwyd gan y Protocol iddo a ddaeth i rym ar 4 Hydref 1967;

ystyr “gweithiwr” (“*worker*”) yw gweithiwr o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwydddeb 2004/38 neu ystyr Cytundeb yr AEE⁽³⁾, yn ôl y digwydd;

ystyr “gweithiwr mudol o'r AEE” (“*EEA migrant worker*”) yw un o wladolion yr AEE sy'n weithiwr, ac eithrio un o weithwyr y ffin o'r AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “gweithiwr o Dwrci” (“*Turkish worker*”) yw gwladolyn o Dwrci—

(a) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig; a

(b) sy'n cael, neu sydd wedi cael, ei gyflogi'n gyfreithiol yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “gweithiwr y ffin o'r AEE” (“*EEA frontier worker*”) yw un o wladolion yr AEE—

(a) sy'n weithiwr yn y Deyrnas Unedig; a

(b) sy'n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o Wladwriaethau'r AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE, yn ôl y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “gwladolyn o'r AEE” (“*EEA national*”) yw un o wladolion un o Wladwriaethau'r AEE heblaw'r Deyrnas Unedig;

ystyr “gwladolyn o'r Deyrnas Unedig” (“*United Kingdom national*”) yw person sydd i'w drin fel gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Cytuniadau'r Undeb;

ystyr “gwladolyn o'r UE” (“*EU national*”) yw un o wladolion un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd;

⁽¹⁾ Gorch. 4904 ac OJ Rhif L114, 30.04.02, t.6.

⁽²⁾ TC 395.

⁽³⁾ Ystyr Cytundeb yr AEE yw'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992, Gorch. 2073, fel y'i haddaswyd gan y Protocol a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993, Gorch. 2183.

ystyr “Gwladwriaeth AEE” (“*EEA State*”) yw un o Aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd;

ystyr “hawl i breswyllo'n barhaol” (“*right of permanent residence*”) yw hawl sy'n codi o dan Gyfarwydddeb 2004/38 i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad;

ystyr “person cyflogedig” (“*employed person*”) yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person cyflogedig Swisaidd” (“*Swiss employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson cyflogedig, ac eithrio'n berson cyflogedig ffin y Swistir, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person cyflogedig Swisaidd y ffin” (“*Swiss frontier employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd—

- (a) sy'n berson cyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) sy'n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o Wladwriaethau'r AEE heblaw'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE, yn ôl fel y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig” (“*self-employed person*”)—

- (a) mewn perthynas â gwladolyn o'r AEE, yw person sy'n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwydddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl fel y digwydd; neu
- (b) mewn perthynas â gwladolyn Swisaidd, yw person sy'n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person hunangyflogedig o'r AEE” (“*EEA self-employed person*”) yw un o wladolion yr AEE sy'n berson hunangyflogedig, heblaw person hunangyflogedig y ffin o'r AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig Swisaidd” (“*Swiss self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson hunangyflogedig, heblaw person hunangyflogedig Swisaidd y ffin, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig Swisaidd y ffin” (“*Swiss frontier self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd—

- (a) sy'n berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) sy'n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o Wladwriaethau'r AEE heblaw'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE, yn ôl fel y

digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig y ffin o’r AEE” (“*EEA frontier self-employed person*”) yw un o wladolion yr AEE—

- (a) sy’n berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) sy’n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o Wladwriaethau'r AEE heblaw'r Deyrnas Unedig ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE, yn ôl fel y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros” (“*person with leave to enter or remain*”) yw person—

- (a) sydd—
 - (i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i’r cais hwnnw, wedi ei hysbysu yn ysgrifenedig gan berson yn gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, y credir ei bod yn iawn caniatáu i’r person hwnnw ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar sail amddiffyniad dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgresiwn er y bernir nad yw’n gymwys i gael ei gydnabod fel ffoadur; neu
 - (ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu yn ysgrifenedig gan berson yn gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i’r person hwnnw ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgresiwn
- (b) sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;
- (c) sydd â chyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros heb ddod i ben, neu wedi ei adnewyddu a’r cyfnod yr adnewyddwyd y caniatâd ar ei gyfer heb ddod i ben, neu y mae apêl (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002 (1)) yn yr arfaeth mewn perthynas â’i ganiatâd i ddod i mewn neu i aros; a
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros;

(1) 2002 p.41. Diwygiwyd adran 104 gan Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr etc) 2004 (p.19), Atodlenni 2 a 4; gan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p.13) a chan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau'r Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo 2010 (O.S. 2010/21), Atodlen 1.

mae i “wedi setlo” yr ystyr a roddir i “settled” yn adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971⁽¹⁾;

ystyr “Ynysoedd” (“Islands”) yw Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw;

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae “rhiant” (“parent”) yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson a chanddo ofal dros blentyn ac mae “plentyn” (“child”) i’w ddehongli yn unol â hynny.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, rhaid trin person fel pe bai’n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd neu yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r AEE a’r Swistir pe byddai’r person wedi bod yn preswyllo felly oni bai am y ffaith—

- (a) bod y person;
- (b) bod priod neu bartner sifil y person;
- (c) bod rhiant y person; neu
- (d) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, bod plentyn y person neu briod neu bartner sifil y plentyn,

yn cael, neu wedi bod yn cael, ei gyflogi dros dro y tu allan i’r Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd neu, yn ôl fel y digwydd, y tu allan i’r diriogaeth sy’n ffurfio’r AEE a’r Swistir.

(4) At ddibenion is-baragraff (3), mae gwaith dros dro y tu allan i’r Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd, neu’r diriogaeth sy’n ffurfio’r AEE a’r Swistir yn cynnwys—

- (a) yn achos aelodau llynges, byddin neu awyrlu rheolaidd y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i’r Deyrnas Unedig fel aelodau o’r lluoedd hynny; a
- (b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd un o Wladwriaethau’r AEE neu’r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu fel aelodau o’r lluoedd hynny y tu allan i’r diriogaeth sy’n ffurfio’r AEE a’r Swistir.

(5) At ddibenion yr Atodlen hon, mae ardal—

- (a) nad oedd gynt yn rhan o’r Undeb Ewropeaidd neu o’r AEE; ond
- (b) ar unrhyw adeg, cyn neu ar ôl 1 Medi 2008, a ddaeth yn rhan o’r naill neu’r llall neu’r ddwy o’r ardaloedd hynny,

i gael ei hystyried fel petai bob amser wedi bod yn rhan o’r AEE.

⁽¹⁾ 1971 p.77; mewnosodwyd adran 33(2A) gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p.61).

RHAN 2

Categoriâu

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig

2.—(1) Person sydd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs—

- (a) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac eithrio drwy fod wedi caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol;
- (b) yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig;
- (c) wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), nad oedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (c) wedi bod yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg amser-llawn.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(4).

3. Person—

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) a oedd, mewn achos pan oedd ei breswyliaid y cyfeiriwyd ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg amser-llawn, yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeiriwyd ato yn is-baragraff (c).

Ffoaduriaid

4.—(1) Person—

- (a) sy'n ffoadur;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers pan gafodd ei gydnabod fel ffoadur.

(2) Person—

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur;

- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig.

(3) Person—

- (a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu bartner sifil i ffoadur;
- (b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches, yn blentyn i'r ffoadur neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw;
- (c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches;
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig.

Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd

5—(1) Person—

- (a) sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros, a
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers pan gafodd ganiatâd i ddod i mewn neu i aros.

(2) Person—

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad y gwnaeth y person hwnnw—
 - (i) y cais am loches; neu
 - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, pan na wnaed cais am loches;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers pan gafodd ganiatâd i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig.

(3) Person—

- (a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—
 - (i) y cais am loches; neu
 - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, pan na wnaed cais am loches,

yn blentyn i'r person hwnnw neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;

- (c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—
 - (i) y cais am loches; neu
 - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, pan na wnaed cais am loches;
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig.

Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd

6.—(1) Person—

- (a) sydd—
 - (i) yn weithiwr mudol o'r AEE neu'n berson hunangyflogedig o'r AEE;
 - (ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd;
 - (iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i) neu (ii);
 - (iv) yn weithiwr y ffin o'r AEE neu'n berson hunangyflogedig y ffin o'r AEE;
 - (v) yn berson cyflogedig Swisaidd y ffin neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd y ffin; neu
 - (vi) yn aelod o deulu person a grybwyllwyd yn is-baragraff (iv) neu (v);
- (b) sydd, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person sy'n gwneud cais am gymorth yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o is-baragraff (1).

7. Person—

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac

- (c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 12 o Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1612/68 ar rydd symudiad gweithwyr⁽¹⁾, fel y'i hestynnwyd gan Gytundeb yr AEE.

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo mewn man arall

8.—(1) Person—

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig;
- (b) a oedd yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn union cyn ymadael â'r Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl preswyllo;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod pan fo tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd;
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a
- (e) a oedd, mewn achos pan oedd ei breswyllo arferol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg amser-llawn, yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (d).

(2) @@At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswyllo os yw'r person hwnnw'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig, yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir) neu'n berson a chanddo hawl i breswyllo'n barhaol ac sydd ymhob achos wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu, yn achos person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd â hawl i breswyllo'n barhaol, os yw'r person hwnnw'n mynd i'r wladwriaeth, o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir, y mae'n wladolyn ohoni neu y mae'r person y mae'n aelod o'i deulu yn wladolyn ohoni.

Gwladolion o'r UE

9.—(1) Person—

- (a) sydd naill ai—

⁽¹⁾ OJ Rhif L257, 19.10.1968, t.2 (OJ/SE 1968 (II) t.475).

(i) yn wladolyn o'r UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; neu

(ii) yn aelod o deulu person o'r fath;

(b) yn mynychu cwrs addysg cymwys; neu

(c) a fu'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), nad oedd ei breswyliaid arferol yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir, yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg amser-llawn.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson a drinnir fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(4).

(3) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, a pherson yn wladolyn y wladwriaeth honno neu'n aelod o deulu gwladolyn y wladwriaeth honno, rhaid trin y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1), sef bod yn wladolyn yr UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, fel pe bai wedi ei fodloni.

10.—(1) Person—

(a) sy'n wladolyn o'r UE heblaw gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;

(b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac

(d) a oedd, mewn achos pan oedd ei breswyliaid arferol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg amser-llawn, yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, a phan fo person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1), sef bod rhaid bod yn wladolyn o'r UE heblaw gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

Plant gwladolion o'r Swistir

11. Person—

- (a) sy'n blentyn i wladolyn o'r Swistir ac sydd â'r hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) a oedd, mewn achos pan oedd ei breswyliaid arferol y cyfeiriwyd ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg amser-llawn, yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

Plant gweithwyr o Dwrci

12. Person—

- (a) sy'n blentyn i weithiwr o Dwrci;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE, y Swistir a Thwrci drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

Diogelwch Dros Dro

13. Person a oedd, ar y dyddiad y daeth ei gais am lwfans cynhالياeth addysg i law Gweinidogion Cymru, wedi cael diogelwch dros dro, ac a fu'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig drwy gydol yr amser ers pan roddwyd y diogelwch dros dro i'r person hwnnw am y tro cyntaf.